Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ

029 20 405 499

post@ysgolplasmawr.cymru

@YsgolPlasmawr

Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ

029 20 405 499

post@ysgolplasmawr.cymru

@YsgolPlasmawr

Headteacher: Mr John D Hayes

Tachwedd 13eg, 2020

Annwyl riant / warcheidwad,

Mae hi wedi bod yn wythnos brysur yn yr ysgol yr wythnos yma gyda phawb nôl ar y safle ers y 'clo bach' diwethaf. Mae yna fwrlwm yn y gwersi, prysurdeb ar hyd ein coridorau a llawer o weithgareddau allgyrsiol wedi eu trefnu yn yr awyr agored bob prynhawn. Trefnwyd taith addysgiadol awyr agored i'r Bannau yn ystod yr wythnos ddiwethaf i fyfyrwyr Gwasanaethau Cyhoeddus Blwyddyn 10—y cyntaf o'i math ers canol mis Mawrth! Cafwyd diwrnod gwisg ein hunain heddiw er mwyn codi arian ar gyfer elusen Plant Mewn Angen, a bu gwasanaethau yn ystod yr wythnos i goffáu y rhai a fu farw yn ystod rhyfeloedd.

Mae'n dda gen i adrodd nad oes gennym ar hyn o bryd yr un achos o COVID-19 ymysg disgyblion a staff yr ysgol, ond mae'n bwysig nad ydym yn llaesu dwylo ac yn llacio ein gweithdrefnau i atal lledaeniad COVID-19. Rwy'n ofni bod ychydig o hunanfodlonrwydd wedi cripian i mewn i'r ysgol yr wythnos yma, gyda rhai disgyblion yn anwybyddu ambell reol hanfodol bwysig fel gwisgo mygydau yn yr ysgol ac ar fysiau ysgol, cadw at y system unffordd o amgylch y safle a chadw pellter cymdeithasol yn ystod amser egwyl a chinio. Gofynnaf yn garedig i chi atgyfnerthu ein rheolau pwysig, gan bwysleisio i'ch plentyn/plant pa mor bwysig yw hi i bawb gydweithio er lles a diogelwch pawb.

Yn anffodus, mae yna leiafrif ymysg ein disgyblion sy'n barod i wastraffu tywelion papur a sebon ein toiledau, sy'n effeithio'n negyddol ar bawb ac yn tanseilio ein hymdrechion i sicrhau bod pawb yn medru golchi eu dwylo'n rheolaidd. Rwy'n frwd i adnabod y criw bach yma o ddisgyblion er mwyn pwysleisio iddynt bwysigrwydd hylendid ar adeg mor bryderus i bawb.

Mae'n hanfodol bwysig ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gadw'r feirws o'r ysgol, ac felly peidiwch anfon eich plentyn i'r ysgol os oes ganddynt unrhyw un o'r symptomau canlynol:

- tymheredd uchel: mae hyn yn golygu eich bod yn teimlo'n boeth i gyffwrdd ar eich brest neu eich cefn (nid oes angen i chi fesur eich tymheredd)
- peswch newydd, parhaus: mae hyn yn golygu pesychu llawer am fwy nag awr, neu dri neu fwy o byliau pesychu mewn 24 awr (os oes gennych beswch fel arfer, gall fod yn waeth nag arfer)
- colled neu newid i'ch synnwyr arogli neu flasu: mae hyn yn golygu eich bod wedi sylwi na allwch arogli na blasu unrhyw beth, neu mae pethau'n arogli neu'n blasu'n wahanol i'r arfer.

Yn wir, os oes gennych unrhyw amheuaeth am gyflwr iechyd eich plentyn, yna ystyriwch yn ofalus cyn anfon eich plentyn i'r ysgol; byddai'n well rhoi diwrnod neu ddau i weld a yw'r symptomau'n datblygu ymhellach nag anfon y plentyn i'r ysgol gydag unrhyw fath o amheuaeth am ei iechyd. Os yw eich plentyn yn dangos symptomau COVID-19, trefnwch brawf COVID cyn gynted â phosib a hunanynyswch nes i chi dderbyn y canlyniad.

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

Gofynnir yn garedig i chi gysylltu â'r ysgol yn syth os yw eich plentyn neu unrhyw aelod o'r teulu'n profi'n bositif am COVID-19. Bydd angen i bob aelod o'r teulu hunanynysu am 14 diwrnod o bryd cychwynnodd y symptomau. Cysylltwch drwy ffonio'r swyddfa yn ystod oriau ysgol neu e-bostiwch y wybodaeth at post@ysgolplasmawr.cymru. Bydd angen i ni weld copi o'r neges fyddwch chi wedi ei dderbyn yn cadarnhau'r canlyniad positif. Mae unrhyw un sy'n profi'n bositif i COVID-19 yn rhydd i ddychwelyd i'r ysgol ar yr 11eg diwrnod ar ôl i'w symptomau gychwyn, ac mae'r rheiny sy'n hunanynysu am 14 diwrnod yn rhydd i ddychwelyd i'r ysgol ar y 15fed diwrnod ar ôl eu cyswllt olaf gyda'r achos positif.

Gofynnaf yn garedig i chi barhau i ddarparu pecyn bwyd dyddiol wythnos nesaf gan fod staff y gegin ond yn medru cynnig darpariaeth gyfyngedig iawn am y tro. Yn anffodus, mae'r problemau technegol yn y gegin yn parhau heb eu datrys, a rhoddaf wybod ichi pan fydd y sefyllfa wedi newid.

Rydym yn parhau i ganiatáu i ddisgyblion wisgo eu cit addysg gorfforol i'r ysgol ar ddiwrnodau gwersi addysg gorfforol. Os dymunant, gallan nhw wisgo gwaelod tracwisg yr ysgol neu unrhyw waelod tracwisg du, plaen arall (dim streipiau na logos), ynghyd â'u siwmperi gwddf V ysgol neu hwdi gyda logo'r ysgol arni, a chotiau ysgol du ar ddiwrnodau pan fydd y tywydd yn oer / gwlyb.

Newyddion addysgiadol mawr yr wythnos oedd cyhoeddiad y Gweinidog Addysg na fydd arholiadau ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer dysgwyr TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch.

Yn lle arholiadau, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithio gydag ysgolion i gynnal asesiadau dan reolaeth athrawon. Dylai hyn gynnwys asesiadau a fydd yn cael eu gosod a'u marcio'n allanol ond yn cael eu cynnal yn y dosbarth dan oruchwyliaeth athrawon.

Disgwylir y bydd y gwaith hwn yn cael ei ddefnyddio fel sylfaen ar gyfer canlyniadau gan ganolfannau, gyda dull cenedlaethol i sicrhau cysondeb ar draws Cymru. Disgwylir rhagor o wybodaeth am natur yr asesiadau hyn yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

Diolch i chi am eich cefnogaeth barhaus dan amodau heriol.

John Hayes
(Pennaeth)

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

November 13th, 2020

Dear parent / guardian,

It has been an extremely busy week with the school back to full capacity since the latest lockdown period. We have experienced a real buzz in lessons, busy corridors and a myriad of different extra-curricular, after-school outdoor activities every afternoon. An outdoor activity trip was arranged for our Year 10 Public Service students to the Brecon Beacons this week—the first of its kind since the middle of March! Today was Children in Need day, we also commemorated the fallen in our assemblies this week.

I am pleased to report that we currently have no recorded positive COVID-19 cases amongst our pupils or staff, but it is crucial that we do not become complacent and relax our COVID-19 rules and regulations. Disappointingly, I've noticed some pupils disregarding some of our clear rules on the wearing of face masks in school and on school transport, ignoring our internal one-way system and not keeping to the social distancing rules at break time and lunch time. Could you please continue to reinforce these key messages to your child/ren and the importance of maintaining good order in school for the health and wellbeing of all members of the school community?

Regrettably, we have a minority of pupils who are prepared to waste paper towels and soap in our toilets, depriving others of the means of washing their hands regularly. I am keen to identify these individuals so that I can explain to them the importance of hygiene in these worrying times.

It is essential that we all work together in trying to keep the virus away from the school, therefore please do not send your child to school if they display any of the following symptoms:

- a high temperature: this means you feel hot to touch on your chest or back (you do not need to measure your temperature)
- a new, continuous cough: this means coughing a lot for more than an hour, or 3 or more coughing episodes in 24 hours (if you usually have a cough, it may be worse than usual)
- a loss or change to your sense of smell or taste: this means you have noticed you cannot smell or taste anything, or things smell or taste differently to normal

I would urge you not to send your child to school if there is any doubt about the health of your child. It may be prudent to allow one or two days to see if the symptoms develop further rather than risk sending your child to school with potential COVID symptoms. If your child displays any symptoms, you must arrange a test as soon as possible and self-isolate until the test result is confirmed.

I would kindly ask you to inform the school as soon as possible if your child or any member of your household receives a positive COVID-19 test result. If this occurs, all members of the household are required to self-isolate for 14 days from the onset of the symptoms. Please contact the school office

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

during school hours, or otherwise e-mail: post@ysgolplasmawr.cymru. We will need to receive a copy of the confirmation text or e-mail regarding the positive test. Individuals who test positive for COVID-19 are allowed to return to school on the 11th day from the onset of their symptoms, and those who have been self-isolating for 14 days are allowed to return to school on the 15th day from their last known contact with the positive case.

Could you please continue to provide your child with a packed lunch next week as the kitchen staff are only able to provide a limited and restricted service for the time being? The technical difficulties experienced this week have yet to be resolved and I will inform you when we are back to full capacity.

We will continue to allow pupils to wear their PE kit to school on the days that they have PE lessons. If they wish, they may wear the school tracksuit bottoms or any other plain black tracksuit bottom (no stripes or logos), together with their school V-neck jumpers or a school hoody, and black school coats on days when the weather is cold/wet. The school PE kit has been carefully selected to be worn in layers in order to help regulate body temperature and not to hinder athletic performance.

The big educational news this week was the Education Minister's announcement that the 2021 exam series for GCSE, AS and A-level learners has been cancelled.

In place of exams, the Welsh Government intend to work with schools to take forward teacher-managed assessments, which will include assessments that will be externally set and marked but delivered within a classroom environment under teacher supervision.

The Minister's expectation is that this work will form the basis for centre-based outcomes that will be linked to an agreed national approach to provide consistency across Wales. We expect further details about the teacher-managed assessments early in the new year.

Thank you for your continued support through these challenging times.

John Hayes
Headteacher